Chwaraeon RhCT
Sport RCT

@sportrct
www.chwaraeonrhct.co.uk | www.sportrct.co.uk

# Astudiaeth Achos

## Ysgol Gynradd yr Hafod - Cynllun Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)

Roedd Ysgol Gynradd yr Hafod eisiau annog rhagor o blant sydd ag anghenion addysgol arbennig i gymryd rhan yng nghlybiau chwaraeon yr ysgol.

Bwriad yr ysgol oedd cychwyn sesiynau prif ffrwd newydd ac integreiddio plant ag AAA trwy eu cefnogi nhw a'u hannog nhw. Roedden nhw ynghlwm â'r clybiau mewn sawl ffordd; gan gymryd rhan yn y sesiynau a helpu i hyfforddi. Cafodd Blwyddyn 3 a 4 eu targedu i gychwyn.

I gychwyn y cynllun, roedd yr ysgol wedi cyflwyno cais am gyllid gwerth £250 i ni. Roedd y cynllun yma wedi talu am offer newydd a'u galluogi nhw i logi hyfforddwyr chwaraeon.

O ganlyniad i'r cynllun, roedd disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn teimlo'u bod nhw'n fwy hyderus a'u bod nhw wedi gwneud ffrindiau newydd. Roedd y plant a oedd wedi cymryd rhan hefyd yn teimlo bod rhagor o gyfleoedd ar gael iddyn nhw ac roedden nhw'n teimlo'n fwy hyderus o ran mynychu sesiynau yn y dyfodol.

### Pam wnaethon nhw hyn?

- I gynnwys plant ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) mewn sesiynau chwaraeon
- I gynyddu nifer y plant ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon
- I wella iechyd a lles plant ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)

Nifer y Plant a gymerodd ran: **30**

Nifer y Sesiynau: **17**

**95%** yn teimlo'n fwy hyderus

**100%** yn teimlo'u bod nhw'n cael eu cynnwys mewn sesiynau chwaraeon

**100%** wedi mwynhau cymryd rhan mewn chwaraeon

**67%** wedi gwneud ffrindiau newydd

RHONDDA CYNON TAF